County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

AGENDA

Pwyllgor PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

Dyddiad ac amser y cyfarfod DYDD MAWRTH, 2 MAWRTH 2021, 4.30 PM

Lleoliad MS TEAMS

Aelodaeth Cynghorydd Patel (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Parkhill, Owen, Sandrey a/ac Wong

Tua Amser.

1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

2 Datgan Buddiannau

I'w gwneud ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3 Ymateb y Cabinet - Adroddiad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol o'r enw 'Rheoli Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol yng Nghaerdydd' *(Tudalennau 5 - 90)* 4.40 pm

Rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol; gwnaeth hyn gyfres o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol gyda'r nod o gefnogi bioamrywiaeth a rheoli amgylchedd naturiol Caerdydd yn well.

4 Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (CCDC) - Mabwysiadu a Chynnal a Chadw Nodweddion Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn y Dyfodol 5.40 pm

Rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar adroddiad y Cabinet sy'n edrych ar 'Mabwysiadu a Chynnal a Chadw Nodweddion Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn y Dyfodol', ac sy'n anelu at:

- Cymeradwyo'r penderfyniad ar gyfer y mecanwaith cynnal a chadw ar gyfer mabwysiadu Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn orfodol dan ddeddfwriaeth y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB).

- Trafod deddfwriaeth mis Ionawr 2019 sy'n cefnogi dau brif opsiwn ar gyfer cynnal a chadw SDCau ar gyfer datblygiadau cymwys, sef - i) i gwmni rheoli gynnal nodweddion SDCau, gyda'r cyllid yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r cwmni rheoli drwy dâl cynnal a chadw parhaus ar bob perchennog eiddo, ii) i swm cynnal a chadw gohiriedig gael ei dalu gan y datblygwr i'r Cyngor er mwyn caniatáu i'r Cyngor gynnal a chadw nodweddion SDCau yn y dyfodol.

5 Contract a Phrydles ar gyfer Cynhyrchu Trydan Gwyrdd o Nwy Tirlenwi a Rheoli Nwy Tirlenwi yn Ffordd Lamby 6.00 pm

Nodyn briffio i Aelodau a fydd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar bapur y Cabinet o'r enw 'Contract a Phrydles ar gyfer Cynhyrchu Trydan Gwyrdd o Nwy Tirlenwi a Rheoli Nwy Tirlenwi yn Ffordd Lamby' cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

6 Disodli'r Fflyd Casglu Ailgylchu a Gwastraff 6.40 pm

Nodyn briffio i Aelodau a fydd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar bapur y Cabinet o'r enw 'isodli'r Fflyd Casglu Ailgylchu a Gwastraff' cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

7 Pwyllgor Craffu Amgylcheddol – Cynllunio Rhaglen Waith 6.50 pm

Eitem i roi cyfle i'r Pwyllgor drafod Rhaglen Waith Ddrafft arfaethedig y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.

8 Eitemau Brys (os oes rhai) 7.00 pm

9 Y Ffordd Ymlaen 7.05 pm

To review the evidence and information gathered during consideration of each agenda item, agree Members comments, observations and concerns to be passed on to the relevant Cabinet Member by the Chair, and to note items for inclusion on the Committee's Forward Work Programme.

10 Dyddiad y cyfarfod nesaf - 11 Mai 2021

Davina Fiore
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021
Cyswllt: Graham Porter, 02920 873401, g.porter@caerdydd.gov.uk

GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Gall aelodau'r cyhoedd hefyd ffilmio neu recordio'r cyfarfod hwn

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd